

Mannau Diddorol

1 Dyfrbontydd y Rhufeiniaid - Wrth i chi ddilyn y llwybr o bentref Caio gan fynd ar hyd y lôn tuag at goedwig Caio, byddwch yn gallu gweld adfeilion y dyfrbontydd Rhufeinig, a arferai gludo dŵr o'r brynau i'r mwngloddiau. Drwy edrych draw i'r chwith gallwch weld fel mae lliw y caeau yn newid rhywfaint lle mae'r ddyfrbont yn mynd ar draws y caeau ar ffurf llinell wastad.

2 Gwarnoethle - Mae'r glaswelltir heb ei drin sydd ar y fferm hon wedi ei ddynodi yn gynefin amgylcheddol sensitif. Mae'r fferm yn cael ei hamaethu mewn ffordd draddodiadol er mwyn gwarchod rhywogaethau sydd yn brin bellach gan fod y math hwn o gynefin wedi prinhau yn genedlaethol. Mae'n fan da i gael golwg ar adar megis yr Ehedydd, sydd yn nythu ar lawr.

3 Caio - Yr oedd eglwys Caio yn ganolfan eglwysig bwysig yn yr oesoedd canol cynnar; os craffwch ar fur allanol yr eglwys (y mur sydd yn wynebu'r gogledd), gallwch weld cofadail Cristnogol o'r chweched neu'r seithfed ganrif.

4 Coedwig Caio - Mae'r blanhigfa gonwydd helaeth hon wedi ei phlannu ar rostir agored. Wrth i chi gerdded trwy'r goedwig sylwch ar goed megis Sbrîws Norwy, Ffynidwydd Douglas a Llarwydd. Efallai y gwelwch blanhigion megis Bysedd y Cŵn, Llus a Grug wrth i chi grwydro ar hyd y llwybr drwy'r goedwig.

5 Bryngaer o'r Oes Haearn - Mae'r daith yn croesi llwybr i lawr tuag at Lan-meddyg ac o'r llecyn agored i'r de ddwyrain o gopa Allt Aber-Mangoed gellir gweld amddiffynfa a ddarganfuwyd yn gymharol ddiweddar. Medrwyd weld y cloddiau yng ngolau'r gaeaf. Mae Allt Dinbeth i'w gwled yn glir mewn man delfrydol ar gyfer bryngaer.

6 Afon Cothi - Mae Afon Cothi yn fan claddu wyau o bwys i frithyllod ac eogiaid. I gyrraedd y man hwn i gladdu wyau yn y gwelyau gro, mae'n rhaid i'r pysgod hyn deithio rhyw 20 milltir (32 km) lan yr afon o Afon Tywi, a hynny rhyw 40 milltir (64 km) o'r môr.


7 Y Dirwedd - Mae'r dirwedd a welwn heddiw wedi cael ei ffurfio dros y 500 mlynedd diwethaf. Cafodd y systemau cytiroedd agored a oedd yn nodweddiadol o'r oesoedd canol, eu rhannu yn gaeau â pherthi, gyda'r tir a arferai fod yn dir comin yn cael ei gau er mwyn gallu ei amaethu yn fwy effeithiol.

8 Allt Dolaucothi - Efallai y gwelwch olion moch daear wrth i chi gerdded trwy'r goedwig. Peidiwch â tharfu ar eu setiau. Yn wahanol i goedwig Caio, sydd yn goedwig gonwydd yn bennaf, mae gan Allt Dolaucothi gymysgedd o goed collddail a chonwydd. Mae'r allt yn arbennig o drawiadol yn yr Hydref a'r Gaeaf pan fo gwrthgyferbyniad amlwg rhwng y Ffawydd a'r Deri noeth ar y naill law a Sbrîws Norwy a Ffynidwydd Douglas ar y llaw arall.

9 Ystad Dolaucothi - Mae Plasty Dolaucothi wedi ei ddymchwel, a'r unig ran a erys ohono yw'r adain ogleddol, sydd bellach yn ffermdy, ynghyd â'r cerbyty. Mae nifer o goed trawiadol, megis Ffawydd Coprog a Phisgwydd, yn britho'r parcedir a arferai fod o amgylch y plasty.

10 Canolfan Ymwelwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol - I gael rhagor o wybodaeth am yr ardal, ewch i'r Ganolfan Ymwelwyr sydd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym mhentref Pumsaint.

Dolaucothi



Points of Interest

1 Roman Aqueducts - The surviving sections of Roman aqueducts, that carried water from the hills of the north-east down to the mine, can be seen as the walk leaves the village of Caio and heads along the lane to Caio forest. Look left for the changing shade of green as the aqueduct runs horizontally in a single line across field systems.

2 Gwarnoethle - The unimproved grassland habitat on this farm is classified as environmentally sensitive. The farm works to a traditional management plan protecting species, which are now rare due to the loss of this type of habitat nationally. Look out for grassland-nesting birds, such as Skylark.

3 Caio - The church of Caio was an important ecclesiastical centre during early mediaeval times; a Christian monument dating back to the 6th or 7th century can be seen on the outside of the north-facing church wall.

4 Caio Forest - This large conifer plantation has been established over unenclosed moorland. As you walk on through the forest look out for Norway Spruce, Douglas Fir and Larch. Either side of the woodland track you may identify Foxgloves, Bilberries and Heather.

5 Iron Age Hill Forts - As the walk traverses along a track heading down towards Glan-meddyg the clearing to the southeast of the Allt Aber-Mangoed summit reveals the site of a defended enclosure only recently discovered. The earthworks may be seen in the evening winter light. Allt Dinbeth can also be seen clearly as a prime site for a hill fort.



6 River Cothi - The River Cothi is an important spawning ground for Trout and Salmon. If you see any they will have travelled approximately 20 miles (32km) upstream from the Tywi River to lay their eggs in the gravel beds, some 40 miles (64km) from the sea.

7 The Landscape - The landscape we see today has taken shape over the last 500 years. The communal open-field systems, typical of mediaeval times, became more divided into hedged field parcels and what was once common land was enclosed for productive farming.

8 Allt Dolaucothi - Walking through the woods you may see signs of Badgers. Please do not disturb their Setts. In contrast to Caio forest, which is mainly conifer, Allt Dolaucothi wood has a mix of deciduous trees and coniferous trees, especially striking in Autumn and Winter when the bare Beech and Oak trees contrast sharply with the evergreen Norway Spruce and Douglas Fir.

9 Dolaucothi Estate - The mansion at Dolaucothi has been demolished and all that remains today is the northern wing, which now serves as a farmhouse and the coach house. The surrounding parkland has impressive specimen trees including Copper Beeches and Limes.

10 National Trust Visitor Centre - For more information about the area, seek out the National Trust Visitor Centre in the estate village of Pumsaint.



Llwybrau a Argymhellir		Recommended Walks
Hawliau Tramwyn Eraill		Other Rights of Way
Maes Parcio a Llecyn Picnic		Car Park & Picnic Site
Llwybrau a Argymhellir		Public House
Canolfan Ymwelwyr		Visitor Centre